

# RHO AMSER I DDARLLEN




Llywodraeth Cymru  
Welsh Government


www.cymru.gov.uk

I Rieni/gofalwyr pobl ifanc

11-14 mlwydd oed




## Manteision darllen



Gall gwella sgiliau darllen, ysgrifennu a siarad plant a phobl ifanc eu helpu i gael bywyd gwell.

- Datblygu sgiliau gwneud penderfyniadau a rhesymu
- Gwella sgiliau iaith a geirfa
- Helpu i ganolbwyntio a gwella sgiliau y cof
- Mae darllen yn cyflwyno syniadau newydd a bydd yn helpu iddyn nhw fentro



## Cyngor wrth Ddarllen



- 1 Y gymysgfa iawn**  
Cadwch amryw o bethau i ddarllen yn y cartref, i weld beth sy'n denu eu diddordeb
- 2 Lawrlwytho AM DDIM**  
Gofynnwch i'ch llyfrgell leol am eLlyfrau AM DDIM ac ewch i: [www.cymru.libraryebooks.co.uk](http://www.cymru.libraryebooks.co.uk)
- 3 Nhw i benderfynu**  
Gadewch iddyn nhw ddewis beth i'w ddarllen, o wefannau cymdeithasol i gylchgronau
- 4 Dangos a dweud**  
Rhannwch erthygl rydych wedi'i weld neu lythyr rydych wedi'i dderbyn - fel bod gwranddo ar eich gilydd yn darllen yn rhan naturiol o fywyd teuluol
- 5 Yr ateb perffaith**  
Rhowch danysgrifiad i'w hoff gylchgrawn yn anrheg i'ch plentyn. O ganwyr pop i dimau chwaraeon, mae cylchgronau ar gael ar gyfer y rhan fwyaf o ddiddordebau
- 6 Cadwch eu diddordeb**  
Meddylwch am y darlun cyfan. Efallai y bydd eich plentyn yn colli diddordeb mewn darllen am gyfnodau. Peidiwch â phoeni. Byddwch yn amyneddgar a defnyddio rhai o'r cyngorion hyn i aildanio eu diddordeb

## Llyfrau Da


Ymlaciwch a mwynhewch y llyfrau da yma.




Nofel arall ddoniol a themladwy yn llawn digwyddiadau, gan David Walliams



Mae Nia yn ferch ifanc normal gyda bywyd normal - tan iddi gyfarfod creadur ffyrnig un nos olau leuad, sy'n newid ei bywyd normal am byth



Mae Twm a Math yn mynd i ymweld â'u tad yn ei fflat yng Nghaerdydd yn ystod gwyliau'r haf



Mae Gwyna yn ferch fach, dawel, pan mae'n cael ei hun yn gweithio i Myrddin y bardd, teithiwr ac adroddwr storïau



Nofel wedi'i lleoli yng Nghaernarfon, sy'n sôn am dad sy'n alcoholig, ei fab, a merch y mae ei fab wedi'i chyfarfod yn y ffair




Teithio mewn amser a byd y tylwyth teg yn dod at ei gilydd yn y llyfr cyntaf hwn mewn cyfres newydd wych gan yr awdur enwog hwn

Wedi eu hawgrymu gan Gyngor Llyfrau Cymru a Llywodraeth Cymru

## Rhagor o wybodaeth



Am ragor o wybodaeth am ddarllen gyda plant o oedran gwahanol ewch i:



[darllenynwell.co.uk](http://darllenynwell.co.uk)

Ymunwch â'r llyfrgell leol AM DDIM, sy'n cynnig nifer fawr o bethau – sesiynau adrodd storïau, digwyddiadau, a llyfrau i'w benthg AM DDIM! Ewch i [www.llyfrgell.cymru.org](http://www.llyfrgell.cymru.org)